**Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg**

***Welsh Language Advisory Panel***

**20 Ionawr 2025 am 10yb**
**Cyfarfod Aml-Leoliad**

**COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru |
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Cyng. Tina Higgins | TH | Llafur |
| **Swyddogion** | | |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |
| Catrin Llwyd | CLl | Ymgynghorydd Cynllunio Iaith a Chyfieithydd |
| Aled Eynon | AE | Cyfieithydd |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd Cynghorydd Glynog Davies pawb i'r cyfarfod.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gynghorydd Kevin Madge, Cynghorydd Andrew Davies, Chynghorydd Carys Jones a Gwyneth Ayres. | |
| 2. | **Prosiect BRO – Catrin Llwyd**<br><br>Croesawodd Cynghorydd Glynog Davies Catrin Llwyd i'r cyfarfod sydd yn Ymgynghorydd Cynllunio Iaith a Chyfieithydd ar gyfer Prifysgol y Drindod Dewi Sant.<br><br>Gwahoddwyd Catrin i'r cyfarfod er mwyn rhoi trosolwg o'r hyn sydd wedi bod ar waith drwy ymchwil prosiect BRO.<br><br>Mae prosiect Bro yn Arolwg Sosioiethyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes sydd wedi cael eu hariannu gan ARFOR. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Drindod Dewi Sant, Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a Phrifysgol Rhydychen gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.<br><br>Esboniwyd Cyfuniad Methodolegol pwrpasol y prosiect:<br><br>**Modiwl 1: Dadansoddi Data Cyfrifiad**<br><br>**Modiwl 2: Blynyddoedd Cynnar** | |

**Modiwl 3: Cymunedau**

**Modiwl 4: Ethnograffyddol - gweithleoedd a gweithluoedd; gofodau cyhoeddus; pobl ifanc**

**Modiwl 5: Ideoleg a Fframwaith Bolisi**

Yr ardaloedd sydd wedi targedu yw ardaloedd ARFOR sef Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd a Môn.

Detholwyd dwy ardal yn Sir Gâr ar gyfer yr arolwg - Chwarter Bach ym Mrynaman a Llanddarog. Pwysleisiwyd fod y croeso maent wedi derbyn yn yr ardaloedd yma wedi bod yn anhygoel ac yn bositif iawn. Maent wedi gweithio yn agos iawn gyda'r mentrau yn y Sir, yn benodol Menter Cwm Gwendraeth Elli yn ardal Llanddarog a Menter Dinefwr yn ardal Brynaman.

Mae'r arolygon yn parhau ar hyn o bryd ar draws y Siroedd yng Nghymru, ac yn dilyn yr ymchwil bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu.

Symudwyd ymlaen i drafod elfen arall o waith BRO sef Iaith Gweithle, Iaith Gweithlu. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi dod i ben, er yn ddiweddar maent wedi derbyn cadarnhad fod y gwaith wedi cael eu hymestyn. Bydd gwaith pellach yn cael eu gwneud mewn partneriaeth ar Cyngor mewn rhai o'n gweithleoedd.

<u>Dadansoddi Defnydd Iaith mewn Gweithleoedd</u>

Cam 1 - Data: Proffil Ardal neu Ddalgylch

Cam 2 - Tirlun a Seindir Ieithyddol

Cam 3 - Arsylwi

Cam 4 - Ideolegau, Potensial a Rhwystrau

Esboniwyd y realiti o wneud ymchwil gyda gweithleoedd a rhai heriau a wynebwyd gan gynnwys prysurdeb gweithleoedd, pryder/ansicrwydd, mynediad a gweinyddiaeth fewnol. Er mwyn goresgyn yr heriau ac ystyriaethau yma maent wedi bod yn hyblyg, sicrhau cyfrinachedd a dyfalbarhau / cynnig hyblygrwydd.

Wrth ddod a'r cyflwyniad i ben diolchodd Catrin Llwyd i'r Cyngor am eu parodrwydd i gyd-weithio ac edrychir ymlaen at barhau gyda'r gwaith yn y dyfodol agos. Ategodd Catrin eu bod yn awyddus i fod yn rhan o'r sgwrs eto pan fydd y canlyniadau wedi cael eu rhannu.

Diolchodd Cyng. GD i Catrin am ei chyflwyniad diddorol a trylwyr.

Derbyniwyd cwestiwn oddi wrth Gynghorydd Peter Hughes Griffiths wedi iddo bwysleisio pa mor hanfodol a gwych yw'r gwaith sydd wedi digwydd. Gofynnodd beth fydd yn digwydd pan fydd yr ymchwil yn dod i ben. Esboniodd Catrin fydd adroddiad mawr cyhoeddus yn cael eu rhannu a fydd yn cynnwys argymhellion, a byddant yn parhau i gadw mewn cyswllt gyda'r Cyngor a'r Cymunedau Tref.

Gofynnodd Cynghorydd Jean Lewis beth sydd yn digwydd i'r ardaloedd yma sydd â niferoedd isel o siaradwyr Cymraeg a pa waith gallwn wneud i adfer a chryfhau'r iaith. Esboniodd Catrin mai methodoleg y prosiect yw canolbwyntio ar yr ardaloedd cryfaf er mwyn cael y canlyniadau gorau. Drwy ganolbwyntio ar y rhai cryfaf mae'n amlinellu'r potensial ar gyfer yr ardaloedd hyn.

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **Diweddariad Grant Llywodraeth Cymru – Llinos Evans**<br><br>Cafwyd diweddariad ar y prosiectau cytundeb cydweithio Llywodraeth Cymru.<br>• Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod amserlen y prosiectau wedi ei ymestyn hyd at 31 Awst 2025.<br>• Byddwch chi hefyd yn cofio fod yna ail rownd o gyllid wedi ei roi wrth gefn ar gyfer canlyniadau astudiaeth dichonolrwydd y Ganolfan Iaith yn nyffryn Aman. Yn dilyn cwblhau'r adroddiad hynny, mae £135,000 ychwanegol wedi ei ryddhau i ni yma yn Sir Gâr ond hefyd i'w wario erbyn diwedd mis Awst.<br>• Dy ni wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas o ran yr ail rownd o brosiectau a byddwn ni'n gwneud gwaith ar dreialu'r fframwaith CEFR yn ardal Dyffryn Aman, er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil Addysg a'r Gymraeg. Bydd prosiectau hefyd o ran defnydd o'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon yn y sir, yn gysylltiedig â'r chwaraeon ffocws sydd gan yr isadran Hamdden.<br>• Bydd prosiect i edrych ar feithrin gallu hyrwyddo addysg Gymraeg drwy'r gwyddorau ymddygiadol mewn lle ar draws siroedd Powys, Castell-nedd, Abertawe a Sir Gar, gyda chwmni Claremont Communications yn arwain ar hynny.<br>• O ran y prosiectau sydd yn y rownd gyntaf, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar draws yr holl feysydd. Mae'r gwaith peilot yn Ysgol Uwchradd Emlyn i ryddhau staff am gyfnod dwys i ddysgu'r Gymraeg wedi cychwyn a Chanolfan Rhagoriaeth sy'n darparu ar ein cyfer.<br>• Gobeithio y byddwch chi wedi gweld y Mentrau Iaith yn hysbysebu gwyliau cerddorol cymunedol yn ddiweddar – mae'r adborth i'r rhai cychwynnol wedi bod yn bositif iawn gyda chynulleidfaoedd da yn cymryd rhan.<br>• Mae'r astudiaeth dichonolrwydd i Ŵyl Gerddorol yn y sir ar fin cychwyn, gyda'r Mentrau Iaith yn arwain ar hynny. Bydd ymweliad safle i Barc Pen-bre ar 4 Chwefror er mwyn trafod isadeiledd ac i gyfarfod gyda'r staff sy'n arfer hwyluso digwyddiadau yno.<br>• Mae'r gweithdy cychwynnol Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog wedi ei gynnal gyda'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Cwmni Hugh Irwin gynhaliodd y gweithdy yma ac mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn. Dy ni'n trefnu cyfres o ddyddiadau ar gyfer yr Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr a Rheolwyr Trydedd Haen ar hyn o bryd.<br>• Mae Cwmni Iaith wedi derbyn y tendr i wneud gwaith ymchwil ar Gynllunio a'r Gymraeg, er mwyn i ni geisio deall y gydberthynas rhwng cynllunio a defnydd tir, a newidiadau o ran ddemograffig y Gymraeg. Byddwn ni'n edrych ar safleoedd strategol yn y sir ac yn llunio holiadur i'w rannu gyda datblygwyr ac arwerthwyr tai. Bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **Cofnodion cyfarfod 21 Hydref 2024**<br><br>Nodwyd fod Cynghorydd Glynog Davies wedi danfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod diwethaf.<br><br>Cynigodd Cynghorydd Sue Allen eu bod yn gofnod cywir a eiliodd Cynghorydd Jean Lewis. | |
| **5.** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Gofynnwyd i'r aelodau am unrhyw syniadau ac awgrymiadau o'r hyn a dymunir ffocysu ar yn ein cyfarfodydd dros y misoedd nesaf.<br><br>Yn dilyn cyflwyno adroddiad a baratowyd gan Dîm Data a Pherfformiad y Cyngor ar ganlyniadau Iaith Gymraeg cyfrifiad 2021, nododd aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael aelod o'r tîm i ddod i'r cyfarfod nesaf i gyflwyno ac i sôn am y prif bwyntiau. Yn sgil hyn, bydd modd adnabod yr hyn gallwn wneud fel Panel mewn ymateb.<br><br>Soniwyd hefyd am ffocysu ar ystadau tai newydd a'r bobl sydd yn byw ynddynt. Teimla aelodau nad ydym yn edrych yn ddigonol ar hyn nag yn cydnabod yr effaith. Gofynnodd Cynghorydd Tina Higgins y cwestiwn ynghylch a ydy'r bobl sydd yn symud i mewn i'n hardaloedd yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg er mwyn ceisio dysgu ac adfer yr iaith.<br><br>***Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7fed Mai, 2025*** | |